

# Arolygiad o Wasanaethau Plant Cyngor Bwrdeistref Siriol Merthyr Tudful



## **Cynnwys**

Cyflwyniad	4
Trosolwg	5
Meysydd i'w datblygu	6
Trefniadau mynediad: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth	8
Asesu	10
Gofal a chymorth a chynllunio llwybrau	12
Diogelu	15
Arwain, rheoli a llywodraethu	17
Methodoleg	19
Diolchiadau	19

## Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o wasanaethau plant yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (y Cyngor) yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2018.

Roedd ein harolygiad yn seiliedig ar yr wyth datganiad llesiant a'r canlyniadau llesiant cysylltiedig a amlinellir yn nogfen Llywodraeth Cymru *Y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth* (Mawrth 2016). Mae ein dull arolygu yn adeiladu ar y safonau ansawdd cysylltiedig ar gyfer awdurdodau lleol a nodir yn y *Cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol* a gyhoeddwyd o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Yn ogystal, yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd gallu'r awdurdod lleol i wella drwy ddadansoddi'r modd y caiff ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol eu harwain a'u llywodraethu.

Canolbwyntiodd yr arolygiad hwn ar effeithiolrwydd gwasanaethau a threfniadau'r awdurdod lleol i helpu ac amddiffyn plant a'u teuluoedd. Roedd cwmpas yr arolygiad yn cynnwys:

- profiad a chynnydd plant ar ymylon gofal, plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal gan gynnwys ansawdd ac effaith gwasanaethau atal, effeithiolrwydd prosesau gwneud penderfyniadau, gofal a chymorth a chynllunio llwybrau
- y trefniadau i sicrhau sefydlogrwydd i blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n dychwelyd adref gan gynnwys defnyddio gwasanaethau maethu, gofal preswyl a lleoliadau y tu allan i'r awdurdod lleol
- cydymffurfiaeth â rheoliadau gwasanaethau maethu a'r safonau gofynnol cenedlaethol
- ansawdd y trefniadau arwain, rhianta corfforaethol a llywodraethu sydd ar waith i bennu, datblygu a chefnogi gwasanaethau digonol a'u darparu yn enwedig mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a'u teuluoedd.

Er bod yr arolygiad wedi canolbwyntio'n bennaf ar gynnydd a phrofiad plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r broses y mae'r rhai sy'n gadael gofal yn ei dilyn wrth droi'n oedolion, roedd yr arolygiad wedi canolbwyntio ar ymgysylltiad plant, pobl ifanc a'u teuluoedd â'r canlynol:

- Gwasanaeth gwybodaeth, cyngor neu gymorth (IAA), gwasanaethau ataliol;
- Asesu/ailasesu anghenion gofal a chymorth a gwaith cynllunio gofal a chymorth;
- Ymholiadau amddiffyn plant, gweithdrefnau, camau amddiffyn brys a chynlluniau amddiffyn gofal a chymorth.

Roedd yr arolygwyr wedi darllen ffeiliau achos, cyfweld â staff a chynnal arolwg staff, cyfweld â rheolwyr a chyfweld â gweithwyr proffesiynol o

asiantaethau partner. Siaradodd yr arolygwyr â phlant a'u teuluoedd lle bo hynny'n bosibl. Roedd pobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal wedi mynychu dau grŵp ffocws.

## Trosolwg o'n canfyddiadau

- Mae gan wasanaeth plant y Cyngor weithlu ymroddedig sydd ag ymrwymiad proffesiynol i hybu'r canlyniadau gorau i blant a theuluoedd.
- Roedd y staff yn deall ac yn dilyn gweithdrefnau a phrosesau diogelu gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn mewn ffordd amserol a chyson.
- Mae cefnogaeth gorfforaethol dda i wasanaethau plant gan aelodau etholedig a'r cyngor yn ehangach. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod angen datblygu ei wasanaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal ymhellach ac mae'n awyddus i wneud hynny.
- Gwelsom enghreifftiau o arfer da ond nid oedd hyn yn gyson. Yn union cyn yr arolygiad, roedd gwasanaethau plant wedi wynebu cyfnod heriol ar ôl nodi meysydd o arfer gwael a oedd yn cael eu dwysáu gan broblemau recriwtio. Roedd hyn yn cynnwys llithr sylweddol wrth asesu a darparu gofal a chymorth i blant a'u teuluoedd.
- Mae'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth (MASH) yn gweithio mewn ffordd integredig gan ddwyn ynghyd nifer o asiantaethau sy'n rhannu gwybodaeth, yn asesu pa mor agored i niwed mae plant a phobl ifanc ac yn gwneud penderfyniadau diogelu ar y cyd er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag niwed.
- Mae'r methiant i drosglwyddo achosion rhwng rhai timau o ganlyniad i swyddi gwag wedi effeithio ar forâl y staff, fodd bynnag roedd ymrwymiad a phroffesiynoldeb y staff i barhau i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i bobl ifanc a theuluoedd i'w gweld drwy gydol yr arolygiad.
- Roedd camau'n dechrau cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu staff rheng flaen drwy recriwtio staff allweddol a defnyddio staff asiantaeth. Yn ogystal, roedd rheolwr tîm profiadol wedi cael ei secondio er mwyn gwella ymarfer. O ganlyniad, roeddem yn hyderus fod uwch reolwyr yn ymrwymedig i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd da yn cael eu darparu.
- Mae angen datblygu'r fframwaith sicrhau ansawdd presennol ymhellach er mwyn hyrwyddo cysondeb ac ymgorffori unrhyw wersi a ddysgir o wybodaeth archwilio a gwybodaeth rheoli perfformiad. Mae gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn parhau i beri anawsterau i'r staff ac mae hyn wedi effeithio ar allu'r Cyngor i gynhyrchu gwybodaeth gadarn am berfformiad.

## **Meysydd i'w datblygu**

### **Trefniadau mynediad: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA)**

1. Gwella trefniadau i drosglwyddo achosion o'r Tîm Derbyn i dimau eraill er mwyn asesu a rhoi cymorth.

### **Asesu**

2. Gwella cysondeb o ran ansawdd asesiadau gan gynnwys dadansoddiadau manwl o gryfderau a risgiau.

### **Gofal a chymorth a chynllunio llwybrau**

3. Datblygu prosesau Cynllunio Llwybrau ymhellach er mwyn bodloni gofyniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf), yn enwedig mewn perthynas â Chynghorwyr Personol a chanllaw Pan Fyddda i'n Barod.

### **Diogelu**

4. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod asiantaethau partner yn rhannu dealltwriaeth glir o niwed sylweddol wrth atgyfeirio achosion at y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth.
5. Mae angen gwneud gwaith datblygu pellach er mwyn ymwreiddio'r model rheoli risg a'r ffurflen asesu risg amlasiantaeth (MARAF) ymhlith staff a phartneriaid, gyda systemau sicrwydd i sicrhau cydymffurfiaeth, ansawdd ac effaith gwasanaethau i bobl ifanc a theuluoedd.

### **Arwain, rheoli a llywodraethu**

6. Sicrhau bod cynlluniau strategol yn cael eu perchenogi a'u deall gan staff a'u defnyddio i lywio ymarfer.
7. Mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu system sicrhau ansawdd fwy cynhwysfawr sy'n atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng strategaeth a gwella ymarfer. Dylai hyn hefyd gynnwys mwy o bwyslais ar amllder, cysondeb ac ansawdd goruchwyliaeth rheng flaen.
8. Parhau i roi blaenoriaeth i strategaeth y gweithlu er mwyn canolbwyntio ar gadw staff a recriwtio staff profiadol yn amserol.
9. Adolygu trefniadau panel er mwyn sicrhau eglurder o ran diben, prosesau gwneud penderfyniadau amserol ac ymgysylltiad gan bartneriaid.
10. Mae angen atgyfnerthu trefniadau i drosglwyddo achosion rhwng timau. Mae polisi trosglwyddo ffurfiol wrthi'n cael ei ddatblygu ac mae angen

ymgorffori'r polisi hwn ym mhob ymarfer a'i fonitro fel rhan o'r fframwaith sicrhau ansawdd.

### **Camau nesaf**

11. Mae AGC yn disgwyl i'r Cyngor ystyried y meysydd a nodwyd fel rhai i'w datblygu a chymryd camau priodol. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol.

# 1. Trefniadau mynediad: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

## Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae'r awdurdod yn gweithio gyda sefydliadau partner i ddatblygu, deall, cydlynu, diweddarau a gwneud y defnydd gorau o adnoddau gwybodaeth, cymorth a chyngor sydd ar gael yn eu hardal yn y sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat. Gall pawb, gan gynnwys gofalwyr, gael gafael ar wybodaeth gynhwysfawr am wasanaethau a chael cyngor a chymorth yn gyflym, gan gynnwys gwybodaeth am eu cymhwysedd a'r ymateb y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Mae trefniadau effeithiol ar waith i oedi neu atal yr angen am ofal a chymorth. Mae pobl yn ymwybodol o bwyntiau cyswllt allweddol ac yn gallu eu defnyddio'n hawdd. Mae'r gwasanaeth yn gwrando ar bobl ac yn dechrau gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae trefniadau cyfeirio effeithiol yn rhoi dewis i bobl o ran y cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal, yn enwedig gwasanaethau ataliol. Mae partneriaid yn deall y trefniadau ar gyfer cael mynediad at wasanaethau cymdeithasol statudol ac mae'r bobl sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth yn gweithredu'n effeithiol.

## Crynodeb o ganfyddiadau

- 1.1. Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n galed i fodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf). Mae llawer o waith wedi'i wneud gyda staff i ddatblygu gwasanaethau yn unol â'r Ddeddf. Mae'r newid diwylliannol sydd ei angen yn broses barhaus.
- 1.2. O fewn y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA), gwelsom fod dyfarniadau cymhwysedd mewn perthynas â phlant a theuluoedd yn aml yn glir. Fodd bynnag, nid oedd achosion yn cael eu trosglwyddo bob amser rhwng y Tîm Derbyn a'r Timau Ymyrryd yn Gynnar a Chymorth i Deuluoedd o ganlyniad i brinder adnoddau o fewn y timau, a diffyg eglurder wrth weithredu'r polisi 'trosglwyddo achosion' presennol.
- 1.3. Roedd hyn wedi cael ei gydnabod ac roedd adolygiad o'r polisi trosglwyddo wedi arwain at ailgyflwyno cyfarfodydd trafod achosion rhwng rheolwyr y timau er mwyn sicrhau bod achosion yn cael eu trosglwyddo'n fwy amserol.
- 1.4. O fewn y tîm Derbyn, roedd problemau o ran adnoddau wedi codi o ganlyniad i swyddi gwag a chyfnod mamolaeth. Roedd hyn wedi arwain at fethiant i gau achosion ac wedi peri oedi wrth drosglwyddo achosion i'r Tîm Derbyn ac atgyfeirio teuluoedd nad oedd angen gwasanaeth statudol arnynt at y gwasanaeth Cymorth Ymyriad Lluosog (MIA). Mewn un enghraifft, gwelsom fod tîm IAA yn dal achos a ddylai fod wedi cael ei drosglwyddo i dîm arall 12 wythnos yn ôl. Roedd y staff newydd a benodwyd yn ddiweddar, gan gynnwys Rheolwr Tîm ac Uwch Ymarferydd, yn helpu i wella ymarfer ac roedd llwythi achos yn lleihau o



fewn timau. Er gwaetha'r pwysau hwn, roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwyr llinell a'r pennaeth gwasanaethau plant.

- 1.5. Roedd tystiolaeth o gyfeirio at asiantaethau ataliol i'w gweld. Yn ôl data cychwynnol, roedd 61% o'r bobl a atgyfeiriwyd at IAA heb dderbyn gwasanaeth, 20% wedi cael eu hatgyfeirio at asiantaeth anstatudol ac 8.5% wedi cael eu cyfeirio at wasanaethau plant. Mae angen gweithio gydag asiantaethau partner ar drothwyon atgyfeirio.
- 1.6. Bu pwyslais sylweddol ar atgyfnerthu cymorth ataliol i deuluoedd. Roedd strategaeth gwrth-dlodi'r awdurdod lleol wedi arwain at adleoli Tîm y gwasanaeth Cymorth Ymyriad Lluosog (MIA) i Deuluoedd o fewn y gwasanaethau plant. Gwelsom dystiolaeth fod hyn wedi arwain at rai ymyriadau amserol a rhagweithiol gyda phlant a theuluoedd a oedd wedi cefnogi eu hannibyniaeth a gwella eu llesiant. Gwelsom hefyd dystiolaeth dda o waith partneriaeth â'r trydydd sector gydag enghreifftiau o gymorth a chynngor rhianta, yn enwedig i dadau drwy raglen DADS.
- 1.7. Gwnaed ymdrechion i fodloni gofynion y Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio gyda chanran uchel o deuluoedd o Ddwyrain Ewrop a gwelsom eu bod yn cael cynnig mynediad cynnar at wasanaethau cyfieithu ac y defnyddir gwasanaethau cymorth arbenigol i weithio gyda'r bobl ifanc hyn a'u teuluoedd er mwyn eu helpu a'u cefnogi drwy'r prosesau asesu.
- 1.8. Adeg yr arolygiad, roedd system gwybodaeth fusnes y gwasanaethau plant newydd gael ei disodli gan System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Dywedwyd wrthym y dylai'r system alluogi asiantaethau i rannu gwybodaeth mewn ffordd fwy diogel, ond roedd nifer o broblemau gweithredu wedi arwain at ddyblygu gwaith a rhoi mwy o bwysau ar rai aelodau o staff gan eu hatal rhag gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc a theuluoedd.

## 2. Asesu

### Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae pawb sydd â'r hawl i gael asesiad o'u hanghenion gofal a chymorth yn cael asesiad yn eu hiaith ddewisol. Mae pob gofalwr sy'n ymddangos fel pe bai ganddo anghenion cymorth yn cael cynnig asesiad o anghenion, ni waeth pa fath o ofal a ddarperir, ei sefyllfa ariannol na'r lefel o gymorth a all fod ei hangen. Caiff anghenion pobl eu hasesu'n amserol sy'n hybu eu hannibyniaeth a'u gallu i wneud dewsiadau. Mae asesiadau'n ystyried canlyniadau personol a barn, dymuniadau a theimladau'r person sy'n cael ei asesu a phobl eraill berthnasol, gan gynnwys y rheini sydd â chyfrifoldeb rhieni. Gwneir hyn i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol ac yn hybu eu llesiant a'u diogelwch eu hunain a llesiant a diogelwch pobl eraill. Mae asesiadau'n rhoi dealltwriaeth glir o'r hyn fydd yn digwydd nesaf ac yn arwain at gynllun sy'n berthnasol i'r anghenion a nodir. Caiff camau gweithredu a argymhellir, a gynlluniwyd i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig i bobl, eu nodi ac maent yn cynnwys yr holl gamau a all gael eu cymryd drwy wasanaethau cymunedol neu ataliol yn ogystal â gwasanaethau arbenigol.

### Crynodeb o ganfyddiadau

- 2.1 Gwelwyd ymarfer cadarnhaol lle roedd plant a phobl ifanc yn chwarae rhan ragweithiol yn y gwaith o lunio'u hasesiadau ond nid oedd hyn yn digwydd yn gyson.
- 2.2 Roedd y rheolwyr a'r staff yn ymrwymedig i gynyddu adnoddau er mwyn i'r staff weithio'n uniongyrchol gyda thelueoedd. Roedd rhai o'r ffeiliau a welwyd yn cynnwys enghreifftiau o'r taflenni gwaith uniongyrchol a gwblhawyd ar y cyd gan y gweithiwr achos a'r person ifanc. Clywsom gan weithwyr achos am y gwaith uniongyrchol roeddent wedi'i wneud gyda phlant a phobl ifanc ond nid oedd ffeiliau achos yn cynnwys tystiolaeth gyson o hyn. Roedd staff o bob rhan o'r gwasanaeth wedi tynnu sylw at yr effaith yr oedd pwysau gwaith yn ei chael ar eu huchelgais i weithio'n uniongyrchol gyda phlant a'u teulueoedd.
- 2.3 Roedd ansawdd yr asesiadau'n amrywio. Gwelodd yr arolygwyr enghreifftiau da lle roedd y plentyn wedi cael ei weld ac roedd y cofnod yn cynnwys barn y plentyn a'r rhieni. Roedd hyn yn cynnwys yr hyn a oedd yn bwysig iddo yng nghyd-destun ei hanes teuluol a'i anghenion diwylliannol. Roedd dadansoddiadau asesu'n canolbwyntio ar gryfderau a risgiau posibl a defnyddiwyd y rhain fel sail i gynlluniau yr ystyriwyd bod modd i deulueoedd eu cyflawni.
- 2.4 Mewn enghreifftiau eraill, fodd bynnag, gwelodd yr arolygwyr fod y sgwrs ynghylch beth sy'n bwysig yn ystod yr asesiad yn adlewyrchu'r hyn yr oedd pobl ei eisiau yn hytrach na dealltwriaeth realistig o'r hyn y gellid ei gyflawni. Nid oedd digon o bwyslais ychwaith ar allu rhieni i newid na digon o eglurder ynghylch yr hyn yr oedd disgwyl iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r cynllun gofal a chymorth. Roedd hyn yn effeithio ar y gallu i gyflawni canlyniadau da i blant.

- 2.5 Yn ogystal, gwelsom rai ffeiliau achos lle nad oedd yr asesiad wedi dadansoddi risg yn ddigonol na gwneud argymhellion clir ar gyfer gweithredu. Mynegodd staff a phartneriaid bryderon fod y ffurflen asesu risg amlasiantaeth (MARAF) yn cael ei defnyddio'n anghyson er bod pob tîm wedi cael hyfforddiant ar sut i'w defnyddio. Dywedodd rhai timau wrthym nad oedd yr adnodd yn addas i'w maes ymarfer. Roeddem yn aneglur ynghylch sut roedd yr asesiad risg yn llywio ac yn nodi'r canlyniadau a gytunir â'r teulu a sut roedd hyn yn cael ei drosi yn gynllun rheoli risg amlasiantaeth.
- 2.6 Mae'r Tîm Plant ag Anabledd (CwD) yn cynnal pob asesiad ar gyfer plant anabl. Dim ond nifer fach o asesiadau a adolygwyd gennym ond roedd y rhai a welwyd o ansawdd da. Gwelwyd tystiolaeth hefyd i ddangos bod asesiadau gofalwyr yn cael eu cynnig i rieni/gofalwyr.

### 3. Gofal a chymorth

#### Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae pobl yn cael gofal, cefnogaeth, help a diogelwch amlasiantaethol amserol ac effeithiol lle bo hynny'n briodol. Caiff pobl sy'n defnyddio gwasanaethau eu cefnogi gan gynlluniau gofal a chymorth sy'n hybu eu hannibyniaeth, eu dewis a'u llesiant, yn helpu i'w cadw'n ddiogel ac yn adlewyrchu'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt. Caiff pobl eu helpu i ddatblygu eu galluoedd a goresgyn rhwystrau i gynhwysiant cymdeithasol.

#### Crynodeb o ganfyddiadau

- 3.1 Gwelsom dystiolaeth fod cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu datblygu mewn ffordd amserol a'u hadolygu yn unol â gofynion. Gwelsom rai enghreifftiau da iawn gyda dadansoddiadau clir, asesiadau risg manwl a chrynodebau o brosesau trosglwyddo neu gau achosion ac roedd goruchwyliaeth gan reolwyr i'w gweld yn y ffeiliau. Er enghraifft, gwelsom y cynhaliwyd ymweliad â chartref plant ar yr un diwrnod mewn ymateb i atgyfeiriad gan y Gwasanaeth Prawf. Gwelwyd bod y Gwasanaeth Prawf wedi cyfrannu gwybodaeth yn y dadansoddiad risg o fewn yr asesiad. Nid oedd hyn yn gyson ag ansawdd cynlluniau gofal a chymorth a oedd yn amrywio ac nid oeddent bob amser yn nodi cryfderau a rhwystrau nac yn cynnwys asesiadau risg clir.
- 3.2 Gwelsom waith ar y cyd â phartneriaid fel y Gwasanaeth Troseddwy'r Ifanc, asiantaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau addysg er mwyn helpu plant hŷn i aros yn eu cartref. Gwelsom dystiolaeth dda fod pobl ifanc a theuluoedd yn cyfrannu at gynlluniau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a oedd, gyda chymorth dwys ac ymateb amlasiantaeth, yn atal pobl ifanc rhag gorfod derbyn gofal.
- 3.3 Mae gan y Cyngor systemau effeithiol ar waith, gan gynnwys panel ac Amlinelliad o Gyfraith Gyhoeddus (PLO), er mwyn sicrhau bod penderfyniadau effeithiol ac amserol yn cael eu gwneud. Gwelsom gydberthnasau gwaith effeithiol rhwng cyfreithiwr yr awdurdod lleol a gweithwyr cymdeithasol, ac roedd y gweithwyr cymdeithasol yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u grymuso. Cefnogwyd hyn gan y ffaith bod disgwyliadau ac amserlenni llysoedd yn cael eu bodloni'n rheolaidd, gyda phenderfyniadau trothwy clir i'w gweld mewn cynlluniau. Roedd gennym bryderon am gydnerthedd trefniadau presennol y tîm cyfreithiol, oherwydd caiff yr holl faterion PLO eu trin yn bennaf gan un unigolyn o fewn y tîm.

#### Y rhai sy'n gadael gofal

- 3.4 Gwelsom ymarfer anghyson o ran cynllunio llwybrau. Gwelodd yr arolygwyr ddiffyg eglurder a dealltwriaeth ymhlith aelodau staff ynghylch rolau gwahanol gweithwyr cymdeithasol a chynghorwyr personol (PA) i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Canfuwyd nad oedd rhai pobl ifanc yn

barod ar gyfer y newid, gan eu bod ond wedi cyfarfod â'u PA pan roeddent yn 17.5 oed ac roedd hyn wedi gwneud iddynt deimlo nad oeddent yn cael eu cefnogi. Roedd rhaglen ddatblygu ar waith, gan gynnwys adolygiad o drefniadau comisiynu, a phenodwyd PA rhan amser i weithio gyda phobl ifanc rhwng 21 a 24 oed.

- 3.5 Ni welsom dystiolaeth ddigonol i ddangos bod y gwasanaeth wedi mabwysiadu canllaw "Pan Fydda i'n Barod" yn llawn na bod aelodau, uwch reolwyr a phartneriaid yn ei gydnabod. Gwelsom dystiolaeth fod rhai pobl ifanc yn cael eu hannog i aros yn eu lleoliad tan eu pen-blwydd yn 18 oed. Roedd y strategaeth hon yn cael ei datblygu gyda gofalmwr maeth hefyd er mwyn hybu sefydlogrwydd lleoliadau hirdymor a galluogi pobl ifanc i aros yn eu cymuned. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud yn y maes hwn ac mae wrthi'n atgyfnerthu ei broses bontio ac yn adolygu ei drefniadau comisiynu.
- 3.6 Gwnaethom ddysgu fod y rhai sy'n gadael gofal yn flaenoriaeth i'r awdurdod lleol gyda chefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref yn hybu camau i ddatblygu gwasanaethau a fydd yn cyfrannu'n sylweddol at sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r rhai sy'n gadael gofal. Roedd ymrwymiad amlwg ar draws y Cyngor i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth, dewis o leoliadau a thai priodol i'r rhai sy'n gadael gofal yn seiliedig ar gydweithio cadarn. Cawsom wybod am y cynllun prentisiaeth a chyfleoedd cyflogaeth sy'n cael eu datblygu o fewn yr awdurdod lleol a'r gwaith sy'n cael ei wneud i ddarparu llety diogel i bobl ifanc, ond mae'n rhy gynnar i werthuso effaith hyn.

## **Cynllunio Hirdymor**

- 3.7 Roedd rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO) wedi'i gwreiddio o fewn y gwasanaethau plant gyda llwybr clir i uwchgyfeirio pryderon ynghylch cynllunio gofal a mynediad agored at uwch reolwyr yn ôl yr angen. Disgrifiodd Swyddogion Adolygu Annibynnol ymarfer cadarnhaol gydag adolygiadau'n cael eu cynnal yn brydlon, cyfathrebu cadarnhaol rhwng timau ac ymdrechion sylweddol i ymgysylltu â phobl ifanc cyn cyfarfodydd adolygu.
- 3.8 Mae'r Cyngor wedi gweld cynnydd yn nifer y Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig (SGO) ac mae gan nifer o'r plant hyn anghenion cymhleth yn debyg i blant sy'n derbyn gofal. Mae'r awdurdod lleol wedi cydnabod bod angen atgyfnerthu'r cymorth a gynigir i rieni a'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhieni er mwyn atal achosion lle mae plant yn dychwelyd i ofal.
- 3.9 Mae angen adolygu trefniadau panel er mwyn gwella perfformiad. Canfu'r arolygwyr nad oedd pobl ifanc a leolir y tu allan i'r ardal yn cael eu dwyn i sylw'r Panel Lleoliadau Amlasiantaeth mewn ffordd amserol a bod hyn yn effeithio ar ansawdd gwaith cynllunio. Mae angen mwy o her ac ymrwymiad gan bartneriaid er mwyn gwneud gwaith cynllunio a

phenderfyniadau effeithiol, heb fod angen uwchgyfeirio materion at Bennaeth y Gwasanaeth i'w datrys.

## **Dewis lleoliadau, sefydlogrwydd a llesiant**

- 3.10 Mae'r Cyngor wedi rhagweld y bydd nifer y bobl sy'n gadael gofal yn cynyddu dros y 5 mlynedd nesaf. Roedd wrthi'n gwneud cynlluniau i ateb y galw cynyddol hwn gan atgyfnerthu'r broses gomisiynu i ddatblygu cymorth priodol ochr yn ochr â darparu llety addas.
- 3.11 Cyfarfu'r arolygwyr â grŵp o blant/pobl ifanc a oedd wedi cael eu lleoli â gofalwyr maeth y Cyngor. Gwnaethant gyfeirio at ymdeimlad o berthyn a diogelwch yn eu lleoliadau a siarad yn gadarnhaol am eu gallu i aros gyda'u gofalwyr o dan gynllun "Pan Fydda i'n Barod". Mae Strategaeth Recriwtio Gofalwyr Maeth 2018/19 yn ategu ymrwymiad yr awdurdod lleol i recriwtio a chefnogi gofalwyr maeth a rhoi dewis gwell o leoliadau i blant a phobl ifanc. Yn sgil penodi swyddog recriwtio, gwelwyd mwy o ddiddordeb mewn gwneud cais i fod yn ofalwyr maeth ac mae gofalwyr maeth newydd wedi cael eu penodi.
- 3.12 Roedd Strategaeth Lleoliadau hefyd yn cael ei datblygu mewn partneriaeth â Chonsortium Comisiynu Plant Cymru er mwyn cynyddu adnoddau ar gyfer lleoliadau o fewn yr ardal a lleoliadau arbenigol, gan gynnwys lleoliadau brys cynaliadwy ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth.
- 3.13 Canfu'r arolygwyr fod pobl ifanc a leolir y tu allan i'r sir yn ei chael hi'n anodd cael gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod.

## **Cyfranogaeth**

- 3.14 Er mwyn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o safbwynt eiriolaeth, mae gan yr awdurdod lleol contract rhanbarthol â Rhondda Cynon Taf i gomisiynu gwasanaethau gan y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS). Dywedodd NYAS fod ganddo gydberthynas dda â'r Cyngor a bod y pennaeth gwasanaethau plant yn ymateb yn rhagweithiol i unrhyw faterion. Er enghraifft, ymatebodd y gwasanaeth plant yn rhagweithiol i ostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau eiriolaeth drwy fynd ati i hybu buddiannau defnyddio eiriolwyr annibynnol er mwyn helpu plant a phobl ifanc i leisio eu barn a chael gwybodaeth a chynrychiolaeth.
- 3.15 Roedd gan bobl ifanc sedd ar y bwrdd rianta corfforaethol; roedd barn pobl ifanc yn eitem sefydlog ar yr agenda gan roi cyfle iddynt godi materion sy'n bwysig iddynt a chyfrannu at ddatblygu gwasanaethau sy'n helpu i wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal.

## 4. Diogelu

### Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae strategaethau diogelu lleol effeithiol yn cyfuno elfennau ataliol ac amddiffynnol. Lle bo pobl yn cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio, neu'n wynebu risg o hynny, maent yn derbyn ymatebion amlasiantaeth brys a gaiff eu cydlynu'n dda. Mae camau gweithredu sy'n deillio o gynlluniau diogelwch neu reoli risg yn llwyddo i leihau risgiau gwirioneddol neu bosibl. Ni chaiff pobl eu gadael mewn amgylcheddau anniogel na pheryglus. Caiff polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn eu deall a'u gwreiddio'n dda ac maent yn helpu i sicrhau ymateb amserol a chymesur i bryderon sy'n dod i'r amlwg. Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn noddi diwylliant dysgu lle gellir ystyried newid perfformiad proffesiynol ac ymddygiad asiantaethau a'u gwella mewn ffordd agored ac adeiladol.

### Crynodeb o ganfyddiadau

- 4.1 Mae awdurdodau lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, ynghyd â'u partneriaid, yn rhannu Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth (MASH) yng ngorsaf yr heddlu Pontypridd. Er eu bod wedi'u cyd-leoli, mae'r ddau dîm gwaith cymdeithasol yn gweithio'n annibynnol ond yn elwa ar y trefniadau gweithio agos sydd rhyngddynt a phartneriaid eraill sy'n eu helpu i drafod materion trawsffiniol a gweithredu mewn perthynas â nhw.
- 4.2 Sefydlwyd MASH fel llwybr i asiantaethau proffesiynol atgyfeirio achosion diogelu at y gwasanaethau cymdeithasol. Yn ymarferol, gwelsom nad oedd rhai asiantaethau partner yn deall hyn. Er enghraifft, roedd MASH yn cael atgyfeiriadau am gymorth ataliol, nid diogelu. Roedd staff MASH yn mynd i'r afael â hyn, er enghraifft, y gweithiwr addysg yn rhoi hyfforddiant i ysgolion ar feini prawf trothwy a gwneud atgyfeiriadau at MASH er mwyn lleihau atgyfeiriadau amhriodol.
- 4.3 Wrth adolygu ffeiliau achos, nododd yr arolygwyr fod atgyfeiriadau'n cael eu sgrinio'n briodol mewn perthynas â phryderon diogelu gan ystyried hefyd beth sy'n bwysig i blant a theuluoedd. Lle roedd atgyfeiriadau'n nodi risg neu niwed sylweddol, roedd penderfyniadau cyflym yn cael eu gwneud a chamau cychwynnol effeithiol yn cael eu cymryd i amddiffyn y plentyn.
- 4.4 O fewn MASH, canfuwyd bod trafodaethau a/neu gyfarfodydd strategaeth yn cael eu cynnal o fewn yr amserlen 24 awr gan amlaf. Roedd y staff o'r farn bod y gydberthynas rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu yn gadarnhaol ac roedd trefniadau i drefnu trafodaethau a chyfarfodydd strategaeth yn effeithiol. Cynhaliwyd trafodaethau neu gyfarfodydd i ymdrin â chanlyniadau strategaethau hefyd ac roedd y rhain yn ffordd effeithiol o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i asiantaethau, adolygu cynnydd a phenderfynu ar y camau nesaf.
- 4.5 Roedd yn amlwg bod yr awdurdod lleol yn deall ac yn ystyried y ffactorau risg sy'n wynebu rhai plant sy'n derbyn gofal. Roedd yr

awdurdod lleol ac asiantaethau partner yn cydweithio'n rhagweithiol mewn perthynas ag achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a phlant sy'n mynd ar goll. Gwelsom enghraifft o waith uniongyrchol gyda pherson ifanc gan ddefnyddio'r Fframwaith Asesu Risg o Gamfanteisio Rhywiol (SERAF) a oedd wedi galluogi'r person ifanc i ddeall y risgiau dan sylw a themlo y gallai gyfrannu at ei gynllun amddiffyn amlasiantaeth er mwyn lleihau risgiau a hybu ei ddiogelwch a'i lesiant.



## 5. Arwain, rheoli a llywodraethu

### Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu'n cydymffurfio â chanllawiau statudol ac, ar y cyd, yn sefydlu strategaeth effeithiol i ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau o ansawdd da i bobl. Mae diwallu anghenion pobl am wasanaethau o ansawdd yn ffocws clir i gynghorwyr, rheolwyr a staff. Caiff gwasanaethau eu harwain yn dda, ceir cyfeiriad clir a chaiff newid ei arwain mewn ffordd gadarn. Mae rolau a chyfrifoldebau ym mhob rhan o'r sefydliad yn glir. Mae'r awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid i roi help, gofal a chefnogaeth i bobl a chyflawni ei gyfrifoldebau rhianta corfforaethol. Caiff pobl leol eu cynnwys yn effeithiol. Mae gan arweinwyr, rheolwyr ac aelodau etholedig wybodaeth a dealltwriaeth ddigonol o ymarfer a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.

### Crynodeb o ganfyddiadau

- 5.1 Mae gweledigaeth ac ethos y Cyngor yn ategu ymarfer ac yn seiliedig ar wasanaethau'n cydweithio i gyflawni nodau cyffredin. Canfuwyd bod y weledigaeth wedi ymwreiddio'n gadarn ar lefel gorfforaethol a strategol ond na chaiff ei deall yn dda gan bob aelod o staff. Canfuwyd nad oedd aelodau o staff bob amser yn gallu disgrifio nac egluro'r weledigaeth na'r modd yr oedd yn llywio eu gwaith i ddarparu gwasanaeth sy'n seiliedig ar ganlyniadau.
- 5.2 Roedd y trefniadau rhianta corfforaethol wedi'u datblygu'n dda ac yn sicrhau bod aelodau, swyddogion a phartneriaid yn deall, yn perchenogi ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau rhianta corfforaethol. Gwelsom dystiolaeth o waith gyda phartneriaid i ddatblygu gwasanaethau therapiwtig, gwaith gwell ar daith bywyd ac opsiynau tai a chyflogaeth gwell i blant sy'n derbyn gofal.
- 5.3 Roedd y Cyngor yn cydnabod bod angen adolygu ei wasanaethau i bobl ifanc sy'n gadael gofal yn unol ag argymhellion adroddiad *Breuddwydion Cudd* y Comisiynydd Plant. Roedd yr awdurdod lleol yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau cyfreithiol mewn perthynas â threfniadau byw i bobl ifanc ôl-18 yn unol â "*Pan Fydda i'n Barod*".
- 5.4 Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i gefnogi plant sy'n derbyn gofal a'i flaenoriaethau yw lleihau nifer y bobl ifanc sy'n gadael gofal nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET), cefnogaeth o ran sgiliau byw'n annibynnol i'r rhai sy'n gadael gofal, y cynllun prentisiaethau newydd a lleoliadau priodol.
- 5.5 Mae gan yr aelod arweiniol, y cyfarwyddwr a'r uwch dîm rheoli wybodaeth gynhwysfawr am bwysau gwaith ar y rheng flaen, sy'n eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol a gweithredu'n gyflym i hybu gwelliannau. Canfuwyd bod aelodau etholedig yn deall eu cyfrifoldebau, eu bod yn gallu herio penderfyniadau a'u bod yn gweithio'n agos gyda'r

cyfarwyddwr a'r uwch dîm rheoli. Yn ogystal, roeddent yn weladwy i'r gweithlu, gan gynnal cyfarfodydd â staff a mynychu digwyddiadau ar gyfer staff a phobl ifanc er mwyn meithrin dealltwriaeth well o heriau a chryfderau'r gwasanaethau plant.

- 5.6 Cydnabu'r awdurdod lleol fod newid o system wybodaeth Swift i WCCIS ym mis Gorffennaf 2017 wedi effeithio ar bob lefel o'r gwasanaeth. Un o'r heriau mwyaf fu'r methiant i gael gfael ar ddata perfformiad cywir o'r system sy'n golygu y bu'n rhaid dibynnu ar ddata anffurfiol a gasglwyd gan dimau gan ddefnyddio amrywiaeth o'u systemau eu hunain. Mae llawer o waith wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf i geisio datrys y problemau ac mae gwybodaeth am berfformiad bellach ar gael ar bob lefel o'r gwasanaeth. Er mwyn cefnogi'r staff a datblygu'r prosesau a'r canllawiau angenrheidiol, roedd tîm pwrpasol wedi'i sefydlu. Roedd rhaglen hyfforddi yn cael ei chynllunio ar gyfer y staff i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y newidiadau i'r system a sut y gall y system lywio ymarfer. Dywedodd y staff fod y sefyllfa'n gwella.
- 5.7 Gwelsom dystiolaeth fod y Cyngor yn adolygu ei fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a'i fod wedi penodi swyddog arweiniol i ymgymryd â'r gwaith hwn. Y cylch gwaith oedd sicrhau bod y system yn rhan annatod o ymarfer, ac yn adnodd defnyddiol i lywio gwelliant parhaus mewn ymarfer a helpu i ddatblygu gwasanaethau.
- 5.8 Gwelsom gydb berthnasau gwaith cadarnhaol rhwng yr awdurdod lleol a'i asiantaethau partner. Dywedodd partneriaid o feysydd ieuchyd ac addysg wrthym fod yr asesiad o'r boblogaeth yn cael ei ddefnyddio i lywio datblygiadau ac mae cynlluniau ar droed i ystyried cynnal dadansoddiad manylach o anghenion ar gyfer plant yn benodol. Gwelsom dystiolaeth o'r effaith yr oedd hyn wedi'i chael ar wasanaethau o safbwynt ailnegodi gwasanaeth cwnsela a chyfuno gwaith gyda seicoleg addysg er mwyn gwneud y ddau wasanaeth yn fwy hygyrch.
- 5.9 Ar y cyfan, roedd y gwasanaethau'n cael eu darparu gan weithlu priodol a chymwys a oedd yn ymrwymedig i gyflawni canlyniadau da i blant a theuluoedd. Er gwaethaf pwysau ariannol a phrinder adnoddau, roedd y timau'n canolbwyntio ar sefydlogrwydd, diogelwch a llesiant plant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a'u teuluoedd.
- 5.10 Roedd trefniadau goruchwylio ac arfarnu staff wedi bod yn anghyson. Er bod rhai staff yn cael eu goruchwylio'n ffurfiol yn rheolaidd, nid oedd hyn yn digwydd yn achos staff eraill; roedd anghysondeb o ran arfarniadau. Dywedodd rhai aelodau o staff fod polisi a thempled goruchwylio ar gael iddynt ar y fewnrwyd, ond nid oedd pob aelod o staff yn ymwybodol o hyn. Roedd polisi a gweithdrefn rheoli perfformiad wedi cael eu datblygu ac roedd angen ymgorffori'r rhain mewn ymarfer er mwyn sicrhau bod aelodau staff yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu mewn ffordd gyson dda. Roedd uwch reolwyr yn ymwybodol o'r gwendid hwn ac roeddent yn gweithio gyda'r adran adnoddau dynol i fynd i'r afael â'r anghysondebau.

## **Methodoleg**

### **Gwaith maes**

Cynhaliwyd 9 diwrnod o weithgaredd gwaith maes.

Gwnaethom ddewis ffeiliau achos i'w olrhain a'u hadolygu o sampl o achosion. Adolygwyd cyfanswm o 47 o ffeiliau; o'r rhain, cynhaliwyd cyfweiliadau olrhain dilynol â gweithwyr cymdeithasol ac aelodau teulu yn achos 18 ohonynt a chynhaliwyd grŵp ffocws olrhain mewn perthynas â 3 ohonynt a oedd yn cynnwys partneriaid amlasiantaeth.

Gwnaethom gyfweled â phlant, rhieni a pherthnasau.

Gwnaethom gyfweled ag amrywiaeth o gyflogeion yr awdurdod lleol, aelodau, uwch swyddogion, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Weithredwr.

Gwnaethom gyfweled ag amrywiaeth o sefydliadau partner yn cynrychioli'r sector statudol a'r trydydd sector.

Gwnaethom adolygu sampl o 5 ffeil goruchwylio staff.

Gwnaethom adolygu dogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad.

Gwnaethom edrych ar sampl o'r cwynion a wnaed am wasanaethau plant.

### **Y Tîm Arolygu:**

Prif Arolygydd: Ann Rowling, Arolygwyr Cynorthwyol: Duncan Marshal, Katy Young, Pam Lonergan, Tracey Shepherd

### **Diolchiadau**

Hoffai AGC ddiolch i'r bobl ganlynol a wnaeth roi o'u hamser a chyfrannu at yr arolygiad hwn; plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, staff, rheolwyr ac aelodau a sefydliadau partner.